## 01 Gallai'ch hyfforddiant drawsnewid bywydau

**Trwy reoli troseddwyr yn y gymuned ac mewn carchardai, mae ein Swyddogion Prawf yn rhoi cyfle i droseddwyr drawsnewid eu bywydau a diogelu'r cyhoedd rhag effeithiau troseddau.**

Mae Swyddogion Prawf yn gweithio'n agos gyda phobl ar draws y system cyfiawnder troseddol, dioddefwyr troseddau, elusennau a'r gymuned ehangach.

## 02 Beth yw'r Cymhwyster Proffesiynol mewn Profiannaeth (PQiP)?



Mae PQiP yn rhaglen ddysgu llawn amser (37 awr yr wythnos) seiliedig ar waith y byddwch chi angen ei chwblhau'n llwyddiannus er mwyn ymgeisio i fod yn Swyddog Prawf.

Mae'n cyfuno dysgu academaidd a datblygu sgiliau ymarferol i sicrhau eich bod yn gwbl barod i ddelio gyda'r holl wahanol fathau o droseddwyr yn ein gofal.

Ar ddiwedd y rhaglen, byddwch yn sicrhau diploma cymhwyster galwedigaethol Lefel 5 mewn Ymarfer Profiannaeth yn ogystal â Gradd Anrhydedd. Bydd gennych chi'r sgiliau a gwybodaeth angenrheidiol i asesu'r risg o droseddwyr a pharatoi adroddiadau proffesiynol.

Byddwch yn gweithio gydag amrywiaeth o droseddwyr, yn cynnwys rhai sydd wedi cyflawni troseddau treisgar a rhywiol, i adsefydlu a lleihau aildroseddu.

# 02 Beth yw'r Cymhwyster Proffesiynol mewn Profiannaeth (PQiP)?

## CYFUNO ASTUDIO GYDA GWAITH

**Bydd disgwyl i chi deithio i ddigwyddiadau dysgu yn rheolaidd, yn arbennig yn ystod 6 mis cyntaf y rhaglen.**
**Mae'r rhain yn cynnwys:**

**ASTUDIO**

- Gweithdai a seminarau yn y dosbarth
- Gweithdai a seminarau ar-lein
- E-ddysgu
- Cefnogaeth gan diwtor academaidd

GWAITH

Ynghyd ag elfennau astudio'r rhaglen, byddwch yn gweithio fel Swyddog Gwasanaethau Profiannaeth (PSO). Gallai hyn fod yn Uned Cyflawni Lleol (LDU) yn y gymuned, sefydliad carchar neu dîm yn y llys.

Byddwch yn cael eich asesu wrth i chi ddatblygu'ch hyder a chymhwyster yn y rôl hon - bydd hyn yn cynnwys arsylwadau, trafodaethau proffesiynol a thystiolaeth tystion. Yma, byddwch hefyd yn derbyn cefnogaeth gan reolwr llinell ac aseswr. Ynghyd ag elfennau astudio'r rhaglen, byddwch yn gweithio fel Swyddog Gwasanaethau Profiannaeth (PSO). Gallai hyn fod yn Uned Cyflawni Lleol (LDU) yn y gymuned, sefydliad carchar neu dîm yn y llys.

## PA MOR HIR MAE'R RHAGLEN YN PARA?

**Mae'r rhaglen PQiP yn 15 neu 21, yn dibynnu os oes gennych chi addysg flaenorol mewn troseddeg neu bwnc tebyg.**

Y rhaglen 15 mis - wedi ei chynllunio ar gyfer ymgeiswyr gyda chymhwyster Lefel 5 ardystiedig neu uwch*, yn cynnwys o leiaf 3 o'r 4 modiwlau gwybodaeth ofynnol canlynol:

- Y System Cyfiawnder Troseddol
- Deall Trosedd ac Ymddygiad Troseddol
- Polisi Penyd a Chosbi Troseddwyr
- Adsefydlu Troseddwyr

Y rhaglen 21 mis - wedi ei chynllunio ar gyfer ymgeiswyr gyda chymhwyster Lefel 5 ardystiedig neu uwch* ond heb unrhyw addysg flaenorol mewn troseddeg neu bwnc tebyg. Os ydych chi'n cael eich asesu i fod yn addas ar gyfer y cwrs hwn, byddwch yn treulio'ch 6 mis cyntaf yn cwblhau hyd at 4 o'r modiwlau gwybodaeth gofynnol a amlinellwyd uchod, cyn mynd ymlaen i elfen PQiP y rhaglen.

* Bydd ymgeiswyr gyda chymwysterau uwch na Lefel 5 hefyd yn cael eu hystyried. Noder mai dyma'r cyfle olaf i gael mynediad i'r rhaglen 21 mis hyd y gellir rhagweld.

## CYFLOG A BUDDION PQIP

**Yn ystod eich hyfforddiant byddwch chi'n ennill £22,261 - a £1,100 yn ychwanegol os byddwch chi'n gweithio yn Unedau Cyflawni Lleol Swydd Buckingham, Swydd Rhydychen, Caint, Berkshire, Swydd Hertford, Norfolk neu Suffolk, neu £3,889 os byddwch yn gweithio yn Llundain.**

Rydym yn cynnig lwfans gwyliau blynyddol hael o 25 niwrnod (sy'n codi i 30 niwrnod wedi 5 mlynedd) plws 8 gwyliau cyhoeddus.

Mae'r gwasanaeth profiannaeth wedi ei gynnwys dan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS). Gallwch weld copi o'r canllaw aelodaeth LGPS dan restriad cynnwys A-Y ar brif wefan GMPF: http://www.gmpf.org.uk/

**Sylwer:**

Bydd unrhyw was sifil cyfredol sy'n aelod o'r PCSPS, trwy dderbyn cynnig i weithio yn y gwasanaethau profiannaeth yn cael ei optio allan o'r PCSPS a'i gofrestru'n awtomatig yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

# 03 Eich gyrfa fel Swyddog Prawf

**Wedi cwblhau eich hyfforddiant PQiP gallwch ymgeisio i fod yn Swyddog Prawf gyda chyflog cychwynnol o £29,038 (a lwfans os yw'n berthnasol).**

Gallwch ddisgwyl gweithio i'r gwasanaeth prawf ym mhob un o'r meysydd canlynol:

## CARCHAR

Gweithio gyda throseddwyr risg-uchel yn ystod eu dedfryd i'w paratoi ar gyfer eu rhyddhau (os yw hynny'n briodol).

Mae hyn yn golygu cyflawni gwaith medrus gyda charcharorion i'w galluogi i newid a lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu neu achosi niwed arwyddocaol.

Mae Swyddogion Prawf yn gweithio ar y cyd â Swyddogion Carchar i adsefydlu troseddwyr.

Maent yn defnyddio eu harbenigedd mewn asesu risg a rheoli ac yn gweithio gyda thimau cymunedol tuag at leihau'r risg yn y gymuned ar ryddhau.

## LLYS

Gweithio gyda thîm llys ymroddedig i baratoi adroddiadau cyn dedfrydu a rhoi cyngor i'r llys.

I lunio'r adroddiadau hyn, mae Swyddogion Prawf yn siarad gyda throseddwyr, yr heddlu ac asiantaethau eraill sy'n adnabod y troseddwr.

Maent yn asesu'r risgiau posibl mae'r troseddwr yn cyflwyno i'r cyhoedd a'r risg y bydd yn aildroseddu.

Maent hefyd yn cynghori'r llysoedd ar unrhyw orchmynion neu amodau allai helpu neu lesteirio adsefydliad troseddwr.

## CYMUNED

Rheoli troseddwyr ar orchmynion cymunedol neu sydd wedi eu rhyddhau ar drwydded o'r carchar.

Mae hyn yn golygu adleoli ac adsefydlu a rheoli risgiau, oll i sicrhau bod cymunedau'n ddiogel.

Trwy daclo achosion aildroseddu, rydym yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd troseddwr yn llithro'n ôl i gylch troseddu.

## A YDYCH YN GYMWYS?

**Bydd angen bod gennych chi gymhwyster Lefel 5 cydnabyddedig neu uwch mewn unrhyw bwnc.**

Gallai hyn fod yn radd anrhydedd, diploma addysg uwch, cymwysterau galwedigaethol Lefel 5 neu brentisiaeth uwch.

Byddwch hefyd angen profiad perthnasol o weithio gydag unigolion heriol y mae eu bywydau mewn argyfwng ac sy'n arddangos ymddygiad heriol.

Gellir sicrhau hyn naill ai trwy waith cyflogedig neu wirfoddol mewn unrhyw asiantaeth sy'n ymwneud â gweithio gydag ymddygiadau heriol.

Os ydych chi eisoes yn gymwys, gallwch ymgeisio i weithio fel Swyddog Prawf yn syth.

## FFURFLEN GAIS

**I ymgeisio, bydd angen i chi ddarparu:**

- eich manylion personol, yn cynnwys eich enw llawn, cyfeiriad, rhifau cyswllt a phrawf o'ch hawl i weithio yn y DU
- manylion eich cefndir addysgol, cymwysterau ac unrhyw hyfforddiant perthnasol

## CWESTIYNAU CYMHWYSTER

**Fe ofynnir i chi gwblhau adran o gwestiynau ar sail cymhwysedd ar y ffurflen.**

Mae'r rhain yn rhoi cyfle i chi arddangos eich addasrwydd ar gyfer y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Fe ddefnyddir yr enghreifftiau a roddwch a'r modd rydych yn eu cyfathrebu i'n helpu i benderfynu pwy fydd yn mynd ymlaen i'r cam nesaf.

## FFURFLEN MONITRO CYFLE CYFARTAL

**Ein nod yw bod yn gyflogwr cyfle cyfartal**

felly byddwn yn gofyn i chi lenwi'r holl gwestiynau cyfle cyfartal a roddir ar y ffurflen gais.

## GWIRIAD DIOGELWCH

**Bydd angen gwiriad diogelwch HMPPS os bydd eich cais yn llwyddiannus.**

Bydd angen i chi ddatgan pob collfarn, rhybuddiad a rhyddhau llwyr ac amodol yn rhan o'r broses hon.

Mae pob un o'n swyddi wedi eu heithrio o'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr – sy'n golygu bod yn rhaid datgelu pob collfarn, pryd bynnag y digwyddont.

# 04 Eich gyrfa fel Swyddog Prawf

## AWGRYMAU YMGEISIO

**Ymchwiliwch** – dysgwch am y gwasanaeth a dod yn gyfarwydd gyda'n gwaith, diben a strwythur.

**Gwiriwch a gwirio eto** – defnyddiwch wirydd sillafu, gofynnwch i ffrind ddarllen eich cais a rhowch ddigon amser i chi'ch hun brawfddarllen a golygu'ch cais

**Amlygwch brofiad perthnasol** a meddwl am eich cyflawniadau mewn rolau blaenorol

**Talwch sylw penodol at ddiben y swydd a'r sgiliau gofynnol** – bydd angen i chi ddangos sut ydych chi'n cyd-fynd â'r hyn rydym ei angen

**Rhestrwch gymwysterau perthnasol** – i fod yn siŵr eu bod y rhai angenrheidiol ar gyfer proffil y swydd

**Rhowch atebion penodol** – bodlonwch y gofynion a amlinellwyd yn y cwestiynau cymhwyster

## ADRANNAU RHANBARTHOL

Wrth wneud eich cais, bydd angen i chi ddewis ymhle yr hoffech chi gyflawni'ch hyfforddiant: Llundain, Gogledd-ddwyrain Lloegr, Gogledd-orllewin Lloegr, Canolbarth Lloegr, De-ddwyrain a Dwyrain Lloegr, De-orllewin a Chanol Lloegr neu Gymru.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn dewis eich lleoliad yn ofalus wrth ymgeisio. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, ni fyddwch yn gallu ei newid wedi dechrau eich hyfforddiant.

Sylwer nad yw lleoliadau mewn swyddfeydd ardal penodol o fewn eich rhanbarth wedi eu sicrhau.



# 04 Cwestiynau Cyffredin

## Gweithio i'r Gwasanaeth Sifil

Mae prosesau recriwtio'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi eu hategu gan yr egwyddor o ddethol ar gyfer apwyntiad yn seiliedig ar rinwedd wedi cystadleuaeth deg ac agored, fel yr amlinellir yn Egwyddorion Recriwtio Comisiwn y Gwasanaeth Sifil.

Os ydych chi'n teimlo nad yw eich cais wedi ei drin yn unol â'r egwyddorion a'ch bod eisiau gwneud cwyn, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gyntaf.

Os nad ydych chi'n fodlon gyda'r ymateb a dderbyniwch, gallwch gysylltu â Chomisiwn y Gwasanaeth Sifil.

## Beth fydd yn gynwysedig yn fy nghontractau cyflogaeth?

Cyflogir dysgwyr PQiP yn yr NPS ar gontractau Swyddogion Gwasanaeth Prawf parhaol a bydd disgwyl iddynt gyflawni tasgau PSO rheolaidd yn ystod y rhaglen hyfforddi.

Fodd bynnag, fe neilltuir rhywfaint o amser astudio tuag at y cydrannau dysgu gofynnol iddynt.